# CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am – 7:00 pm, nos Lun 30 Mawrth 2026 Ystafell Gymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch ac ar ZOOM

Yn bresennol: Arwel Davies (Cadeirydd), Ian Evans (Is-gadeirydd), Edmund Evans, Manon Davies, Philip Williams, Rhian Wyn Jones, Helen Jones, Bari Evans, Stephen Williams.

**1. Ymddiheuriadau: Dim.**

**2. Adran siarad cyhoeddus: Dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod 23ain Chwefror 2026**

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Arwel Davies

Mater yn codi: item 7 or agenda - Nid oedd y Clerc wedi derbyn ymateb.

**4. Penodi Clerc newydd**

Roedd y Clerc wedi gwneud JPEG o'r hysbyseb i Gynghorwyr bostio ar Facebook ac wedi anfon yr hysbyseb ymlaen at Gyngor Sir Dinbych ac Un Llais Cymru.

Cynigiwyd:
i. Ein bod yn cynyddu'r oriau i 20 awr y mis.
ii. Ein bod yn hysbysebu eto ar Facebook ac ar wefan hysbysebu mewnol Sir Ddinbych.
iii. Byddai'r Cyngor yn hysbysebu mewn papurau bro.

**5. Cyllid**

i. Taliadau

| | |
|---|---|
| a) Y Clerc (E.M. ab Owain) Gwaith Clerc Mawrth 2026 | £ 219.10 |
| b) Costau'r Clec Mawrth 2026 | £ 13.50 |
| c) CThEM (PAYE) Mawrth 2026 | £ 54.80 |
| d) Merched y Wawr Llanrhaeadr | £ 500.00 |
| e) Canolfan Addysg Bro Cinmeirch, Pwyllgor Rheoli ar y Cyd | £ 650.00 |
| f) Siop Diffygyddion – Batris Zoll | £ 66.00 |

Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Edmund Davies Pleidleisiodd: Unfrydol

Yn dilyn trafodaeth y Cyngor ar defibs yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc wedi derbyn anfoneb gan y Defib Store am badiau ar gyfer defib Siop Bentref Llanrhaeadr. Cytunwyd i gadw'r taliad tra bod y Clerc yn gofyn fod y cyfeiriad/enw dosbarthu yn gywir ar gyfer y swyddog Gwasanaeth Ambiwlans sy'n gyfrifol am gefnogaeth gymunedol.

ii. Balansau Banc:
HSBC BMM £31,044
Elusen HSBC £11,045

iii. Llofnodwyr y cyfrif. Roedd y Cadeirydd wedi gofyn am ychwanegu llofnod y Clerc dros dro at lofnodwyr banc y Cyngor.

iv. Archwiliad 2024-25. Roedd adroddiad yr Archwilydd ar gyfer y flwyddyn 2024-5 wedi'i dderbyn.
i. Roedd sawl eitem a nodwyd gan yr archwilydd, megis y broses ar gyfer taliadau yn ystod 2024-25, eisoes wedi'u cydnabod ac wedi cael sylw dros y 12 mis diwethaf.
ii. Tynnodd y Clerc sylw at eitemau yr oedd yr archwilydd wedi'u methu ystyried yn ystod ei archwiliad, sef y gofrestr asedau a'r amrywiadau a oedd ill dau wedi'u cynnwys yn y ffurflen.

iii. Roedd y Clerc wedi herio'r archwilydd ar y ddwy eitem hyn. Derbyniasant eu bod wedi methu'r gofrestr asedau ond rhoddasant ymateb amwys iawn ar yr amrywiadau. Byddai'r Clerc yn gofyn eglurhad.

**6. Byrddau Hysbysu**

i. Adroddodd y Cynghorydd Bari Evans nad oedd y tri bwrdd cyntaf wedi'u cyflwyno eto. Gofynnwyd i'r Clerc alw 'Earth Anchors' – y cwmni sydd yn gwneud y byrddau.

ii. Roedd tri chrefftwr wedi cael eu holi am ddyfynbrisiau i osod y byrddau. Dim ond 1 dyfynbris a dderbyniwyd gan Arwyn Vaughn am £320 ynghyd â TAW.
Cynigiwyd bod y Cyngor yn derbyn y cynnig hwn.

Cynigiwyd gan: Ian Davies. Eiliwyd gan: Stephen Williams.

iii. Y pedwerydd bwrdd ar gyfer Llanrhaeadr. Gofynnwyd i bedwar cwmni am ddyfynbrisiau ar gyfer y bwrdd hwn a oedd o siâp a maint anarferol. Dim ond un dyfynbris a dderbyniwyd – gan Parish Noticeboards. Cynigiwyd ein bod yn derbyn y cynnig hwn. £590 ynghyd â TAW.

Cynigiwyd gan: Manon Davies. Eiliwyd gan: Phil Williams

**7. Byrddau arddangos ar hanes lleol**

Cynigiwyd bod y Cyngor yn prynu a gosod nifer o fyrddau ar hanes yr ardal yn y prif bentrefi. Fel cam cyntaf:

i. Byddai grŵp yn cynnwys y Cynghorwyr Arwel Davies, Phil Williams, Stephen Williams a Bari Evans yn cyfarfod i drafod y cynnwys.
ii. Byddai'r Clerc yn dod o hyd i fanylion cyswllt nifer o gyflenwyr.

**8. Adroddiad y Cynghorydd Sir:**

Roedd y Cynghorydd Sir wedi dosbarthu nifer o e-byst gyda diweddariadau ar ffyrdd (gweler atodiad 1 isod).

**9. Priffyrdd**

Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr anfon unrhyw fanylion am atgyweiriadau ffyrdd oedd eu hangen ato a byddai'n eu nodi ar system adrodd 360 gradd Sir Ddinbych.

**10. Ceisiadau cynllunio: Dim.**

**11. Grantiau**

Roedd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pantpastynog wedi gofyn am £524 ar gyfer sied i storio eitemau ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

Roedd y Clerc wedi derbyn eu datganiad banc diweddaraf ac roedd gennym eisoes eu cylch gorchwyl. Cynigiwyd ein bod yn cymeradwyo'r cais hwn.

Cynigiwyd: Edmund Evans Eiliwyd: Stephen Williams

**12. Adroddiad blynyddol**

Cyflwynodd y Clerc ail ddrafft bron yn gyflawn o adroddiad blynyddol. Byddai Rhian Wyn Jones yn profi a byddai'r Clerc yn ychwanegu map o ardal y cyngor ar y teitl.

**13. Swydd wag ar y Cyngor**

Roedd y Clerc wedi derbyn yr hysbysiadau perthnasol gan Gyngor Sir Dinbych a gofynnwyd iddo Rhoi hysbyseb am etholiad i fynnu.

**14. Diffibrilon**

Yn cyfarfod ym mis Chwefror, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo mewn egwyddor i ariannu padiau newydd ar gyfer y defibs yn Siop Bentref Llanrhaeadr (£66) a thu allan i'r Ganolfan Addysg yn Ysgol Bro Cinmeirch (£289). Byddai Pwyllgor Rheoli ar y Cyd Canolfan Addysg Bro Cinmeirch a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn gosod y rhain.

Cynigiwyd bod y Cyngor yn cadarnhau eu cefnogaeth ac yn talu am y padiau hyn.

Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Arwel Davies

**15. Materion brys a godwyd gan y Cynghorwyr**: Dim.

**16. Cyfarfod nesaf: 27ain Ebrill 2026.**

**Atodiad 1**

**Appendix 1**
Pnawn da
Wedi gobeithio dod heno ond ddim yn siŵr os fyddai adref mewn pryd.
Fel y gwyddoch wedi bod a pennaeth priffyrdd o amgylch y ward. Dal i ddisgwyl am adroddiad o'r ymweliad i weld pa ffyrdd bydd yn cael blaenoriaeth blwyddyn ariannol nesaf.
Cefais sgwrs sydyn ar pennaeth wythnos diwethaf ac roedd o ddim yn gallu cadarnhau lle bydd gwaith yn cael ei wneud ond awgrymodd bod nifer o ffyrdd o amgylch Prion o dan sylw.
Unwaith dwi wedi cael cadarnhad na'i adael i chi wybod.
Dal i ddisgwyl clywed hefyd am fin wrth safle bws Pentre Farm a hefyd llwybr troed.
Diolch
Elfed